# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Stephanie De'ath**

**Aberteifi**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Manually Insert Date**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Stephanie De'ath wedi'i chofrestru ers 2013 ac yn gweithredu o'i chartref yng Nghilgerran, Aberteifi. Mae'n gweithio gyda gwarchodwr plant cofrestredig arall, Heulwen Jones. Mae'n darparu gofal ar gyfer hyd at ddeg plentyn o dan 12 mlwydd oed wrth weithio ar ei phen ei hun a hyd at ddeg plentyn o dan 12 mlwydd oed wrth weithio gyda Heulwen Jones. Yr oriau agor yw 7am i 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gofal yn cael ei gynnig yn Gymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael gofal gan warchodwr plant profiadol ac maent yn hapus iawn, wedi setlo ac mae ganddynt lais cryf. Maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ac yn mwynhau chwarae wedi'i arwain gan y plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd o fyw iach ac mae ardal awyr agored y gall y plant ei defnyddio. Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac yn gyfforddus ac yn canolbwyntio ar y plant. Mae dewis eang o adnoddau ar gael i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gwelliannau ac yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

**2. Gwelliannau**

Mae'r gwarchodwr plant wedi;

- creu grisiau pren â chanllawiau fel y gall y plant gael mynediad i'r trampolîn
- prynu cyfarpar newydd i'r ardd gan gynnwys siglen
- prynu bygi dwbl newydd
- adeiladu sied yn yr ardd i gadw'r teganau a'r cyfarpar

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben, y contractau ac iechyd a diogelwch. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad ym mhwynt 5:2.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, wedi setlo'n dda ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Mae'r gweithgareddau a'r profiadau chwarae yn ddiddorol ac yn gyffrous iddynt. Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r gwarchodwr plant.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y plant a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau.

Roedd y plant yn cael dewis o weithgareddau ac roeddent yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Gwnaethant chwarae jig-sos, gwthio bygis a chwarae gyda doliau. Gwnaethant ofyn am y teganau roeddent am eu cael ac aethant i nôl y teganau yn ôl eu dymuniad. Er enghraifft dywedodd un plentyn wrth y gwarchodwr plant "I want to play this one" gan bwyntio at focs o deganau squigz. Ymatebodd y gwarchodwr plant i'w ceisiadau yn gadarnhaol. Gwnaethant wenu yn ddiolchgar wrth iddynt wagio cynnwys y bocs i'r bwrdd a chwarae'n hapus. Pan ofynnodd y gwarchodwr plant a oeddent wedi gorffen chwarae gyda'r teganau Peppa pig, atebodd un plentyn yn hyderus "No, I want to play Peppa!" Gwnaethant ofyn am gymorth yn ôl yr angen. Er enghraifft, gwnaethant ofyn i'r gwarchodwr plant am help i atodi ysgol i wely Peppa pig. Roeddent yn gwybod y byddai ymateb cadarnhaol i'w ceisiadau.

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ddiogel ac wedi setlo'n dda. Mae ganddynt gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn gwybod bod eu teimladau, eu hoffterau a'u casbethau yn cael eu hystyried.

Aeth y plant at y gwarchodwr plant i gael sicrwydd a chwtsh ar sawl achlysur yn ystod ein hymweliad. Syrthiodd y plant i gysgu yn annibynnol gan ddangos eu bod yn ymlacio yn eu hamgylchedd. Gwnaethant ddeffro o'u cwsg yn hapus a chwarae yn fodlon. Roedd y plant nad oeddent yn hoffi gwisgo dillad chwarae rôl yn gwybod eu bod yn gallu dangos eu teimladau i'r gwarchodwr plant. Canodd y plant i'w hunain yn hapus wrth iddynt chwarae a neidio i fyny ac i lawr yn gyffrous wrth wthio eu doliau o amgylch yr ystafell mewn bygis. Gwnaethant sgwrsio yn hapus am bwy roeddent yn hoffi chwarae â nhw tra yng nghartref y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymlacio a setlo'n dda. Maent wedi ffurfio ymlyniad cadarnhaol i'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, yn hyderus i gydweithredu, cymryd eu tro a rhannu.

Chwaraeodd y plant yn gadarnhaol â'i gilydd, gan fwynhau cwmni ei gilydd. Rhannodd y plant adnoddau'n fodlon wrth chwarae â theganau Peppa Pig. Pan wnaeth plentyn wthio tŷ Peppa pig i'r llawr ar ddamwain, dywedodd y plentyn arall “Let me help you!”. Gwnaethant godi'r tŷ o'r llawr a'i osod wrth ymyl eu ffrind. Cymerodd y plant eu tro i fynd â chymeriadau Peppa pig i fyny grisiau'r tŷ ac i wthio'r ddoli o amgylch yr ystafell mewn bygi. Gwnaethant rannu adnoddau, megis esgidiau a bagiau chwarae rôl.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain a chael amser i ymlacio.

Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn mynd i nôl adnoddau'n hyderus yn ôl eu dymuniad, yn ogystal â gofyn i'r gwarchodwr plant am deganau. Gwnaeth y plant chwarae'n ddychmygus am amser hir. Er enghraifft, gwnaethant osod tŷ Peppa, rhoi Peppa i'r gwely, cerdded cymeriadau i fyny'r grisiau a'u gwthio o gwmpas yn y car. Gwnaethant ofyn am flwch o deganau squigz gan dreulio cryn dipyn o amser yn eu gludo at ei gilydd ac adeiladu strwythurau megis pontydd. Gwnaethant gwblhau nifer o jig-sos mewnosod a rhifau yn annibynnol. Gwenodd y plant o glust i glust pan ddywedodd y gwarchodwr plant, "Well done!" Cawsant amseroedd tawel i ymlacio ac eistedd ar y soffa yn ogystal ag amser i gysgu.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac maent yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd.

Gwnaeth y plant gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn hyrwyddo eu datblygiad. Er enghraifft, roeddent yn gallu cwblhau jig-sos rhifau a gwnaeth y plant ifanc gyfrif i ddeg yn hyderus ac enwi anifeiliaid fferm a'r synau roeddent yn eu gwneud. Cawsant gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau echddygol manwl â gwaith pensil a chreon yn ogystal â gosod ysgol Peppa i'r gwely bync. Mae'r plant yn mynychu grŵp plant ac mae gwarchodwr plant arall yn dod â'i phlant i gartref y gwarchodwr plant er mwyn cyfrannu at sgiliau cymdeithasol y plant. Anogwyd y plant i dorchi eu llewys a golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol. Maent yn cael cyfle i ymarfer eu sgiliau echddygol manwl yn yr ardd, ond ni wnaethom eu gweld yn chwarae yn yr ardd yn ystod ein hymweliad.

Mae'r plant yn cael eu cymell i ddatblygu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio yn bwyllog ac yn arwain drwy esiampl. Mae'n gyfarwydd ag anghenion unigol y plant yn ei gofal ac yn hyrwyddo eu datblygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd o fyw iach ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelwch priodol.

Roedd gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn plant ac roedd wedi cael hyfforddiant cyfredol. Rhoddodd amlinelliad clir o'i hymateb pe bai ganddi bryderon. Dywedodd wrthym ei bod yn cynnal ymarferion tân misol ond nad oedd yn nodi dyddiadau'r ymarferion. Fodd bynnag, roedd y plant yn amlwg yn gyfarwydd â chynnal ymarferion tân pan wnaeth y gwarchodwr ddefnyddio chwiban ar ffurf tegan eliffant fel larwm. Roedd ganddi hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd cyfredol. Roedd hi wedi cofrestru gyda'r adran asiantaeth safonau bwyd leol er bod y plant yn dod â'u bwyd eu hunain. Roedd hi'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda chwarae yn yr awyr agored yn rhan annatod o'r gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach bob amser.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd gyson â'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl da ac roedd hi'n dyner ac yn amyneddgar gyda'r plant. Eisteddodd ar y llawr gyda'r plant a sgwrsio â nhw yn gyson ar lefel yr oeddent yn ei deall. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliad. Gwnaethant geisiadau yn gwrtais a diolch i'r gwarchodwr plant bob tro. Pan geisiodd un plentyn fynd â thegan oddi wrth blentyn iau, esboniodd y gwarchodwr plant yn amyneddgar ac yn bwyllog mai gan y plentyn arall roedd y tegan gyntaf ond mewn ychydig o amser, eu tro nhw fyddai i gael y tegan. Datryswyd y sefyllfa yn syth gyda'r plant hŷn yn hapus i dderbyn esboniad y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad yn gyson ac yn effeithiol.

#### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch meithringar a gofalgar ac mae'n ymateb i anghenion unigol y plant yn dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn serchus gyda'r plant yn ei gofal a chadarnhawyd hyn gan holiaduron y rhieni. Er enghraifft, roedd ymatebion yn cynnwys "My little ones love coming to Steph's house. Sometimes they don't want to leave!" Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion. Casglodd wybodaeth am eu hoff a'u cas bethau cyn eu hanghenion. Ymatebodd i

gliwiau plant bach heb eiriau er enghraifft codi plentyn bach i'w breichiau pan oedd y plentyn am sicrwydd. Sychodd drwynau'r plant yn ôl yr angen. Roedd hi'n ymwybodol o hoffterau'r plant megis dim eisiau gwisgo dillad chwarae rôl. Roedd hi'n cydnabod pan oedd un o'r plant yn flinedig ac angen cwsg. Gwnaeth drafod hoffterau ac arferion y plant yn ei gofal yn hyderus. Nid oedd yn cadw cofnodion ffurfiol o ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, roedd yn gallu trafod anghenion ychwanegol y plant yn ei gofal yn hyderus a'r mesurau a gymerwyd ganddi i'w galluogi i ddefnyddio'r holl adnoddau. Er enghraifft, adeiladodd risiau o bren â chymhorthion a oedd yn arwain at y trampolîn.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, yn lân ac yn addas i'r plant. Mae'n defnyddio'r heulfan i ofalu am y plant. Gall y plant fynd allan i'r ardd amgaeedig fawr.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Roedd y safle yn ddiogel gan fod y drws i'r heulfan yn cael ei gadw dan glo ac roedd yr ardd yn gwbl amgaeedig. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o'r ymwelwyr yn ei dyddiadur. Roedd y safle yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Roedd holiaduron y rhieni yn cadarnhau hyn er enghraifft, “House always clean and tidy.” Roedd gan y gwarchodwr plant asesiadau risg sylfaenol ar waith ar gyfer yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Roedd cyfarpar diogelwch wedi'i osod fel giatiau diogelwch ym mynedfa'r gegin o'r heulfan ac amddiffynnydd tân o amgylch gwresogydd trydanol yn yr heulfan. Roedd hi'n gwirio'r larymau mwg yn rheolaidd ac roedd blanced dân wedi'i lleoli ar wal y gegin.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau derbyniol i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle yn groesawgar ac mewn cyflwr da.

Roedd digon o le a chyfleusterau ar y safle a gallai'r plant fynd i nôl teganau ac adnoddau'n hawdd. Cadarnhawyd hyn mewn holiaduron i rieni gyda datganiadau fel, "Range of toys is good" a "plenty of space for children to play." Roedd y safle yn lân, yn gynnes, yn gyfforddus ac wedi'i addurno'n dda. Roedd y plant yn gallu defnyddio gardd amgaeedig fawr â chyfarpar megis trampolîn, llithren, siglenni, cylch pêl fasged a theganau reidio. Roedd sied newydd yn cadw adnoddau megis pwll tywod, pêl siglo a bygi dwbl.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i blant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cyfarpar ac adnoddau addas ar gael i'r plant.

Roedd y teganau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd yr heulfan yn cynnwys amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar ar gyfer pob ystod oedran. Gallai'r plant gael gafael ar adnoddau yn hawdd. Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft. Roedd amrywiaeth eang o gyfarpar ac adnoddau ar gael i chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y gwarchodwr plant yn glanhau'r teganau yn rheolaidd ac yn gosod teganau newydd yn lle'r rhai a oedd wedi torri. Roedd y

cyfarpar megis cadeiriau uchel, matiau newid a stepiau i gael mynediad i'r toiled a'r sinc mewn cyflwr da.
Mae'r gwarchodwr plant bob amser yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn amlwg yn mwynhau gofalu am y plant. Yn gyffredinol, mae'n cadw'r holl gofnodion a dogfennau gofynnol ac mae ganddi sgiliau trefnu da. Mae ganddi bartneriaethau da â'r rhieni.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sôn yn y datganiad o ddiben am gi'r gwarchodwr plant. Cadarnhaodd holiaduron y rhieni eu bod yn hapus â'r wybodaeth y maent yn ei chael am y gwasanaeth. Roedd yr holl gofnodion a dogfennaeth gofynnol ar gael ac roeddent yn drefnus. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael yr holl ffurflenni angenrheidiol gan y rhieni, fel gwybodaeth bersonol, contractau a llofnodion ar ffurflenni damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y gwarchodwr plant nifer o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, fel amddiffyn plant a rheoli ymddygiad cadarnhaol. Nid oedd gan y gwarchodwr plant bolisi anifeiliaid anwes ar gyfer ci y teulu.

Mae'r arweinyddiaeth yn dderbyniol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau i adolygu ei gwasanaeth ac mae'n gwerthfawrogi adborth gan y rhieni a'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi holiaduron i'r rhieni yn gofyn am eu hadborth ar y gwasanaeth. Roedd adborth gan y rhieni yn gadarnhaol gyda sylwadau fel "My children love going to Steph. She is fab with them and we are extremely happy with the care they receive." Roedd holiaduron y plant yn nodi eu bod yn mwynhau chwarae yn yr ardd ar y trampolîn, chwarae pêl-droed a threulio amser gyda'i ffrindiau. Roedd adroddiad ar ansawdd y gofal yn cyfeirio at welliannau fel adeiladu sied i storio teganau, adeiladu grisiau sy'n arwain at y trampolîn i alluogi pob plentyn i ddefnyddio'r trampolîn, ni waeth pa fath o anabledd sydd ganddynt, a bygi dwbl newydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso ei gwasanaeth yn effeithlon.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan y gwarchodwr plant brofiad a chymwysterau gofal plant priodol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Roedd ganddi dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

ddilys ac roedd holl ddogfennau'r car yn gywir. Roedd ganddi dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ogystal â phob oedolyn yn y cartref.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn briodol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n agos gyda'r rhieni, gwarchodwyr plant eraill ac yn mynd i grwpiau plant bach yn y gymuned.

Roedd ganddi gydberthynas waith gadarnhaol â'r rhieni ac yn rhoi adborth ar lafar yn ddyddiol. Cydweithiodd y gwarchodwr plant â gwarchodwr plant arall gan rannu arfer da. Roedd yn agor ei chartref i warchodwr plant arall unwaith yr wythnos er mwyn galluogi'r plant i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft. Roedd yn mynd â'r plant i grŵp plant bach lleol yn rheolaidd gan sicrhau bod y plant yn rhan o'r gymuned.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaeth gadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- cynnal asesiadau risg mwy trwyadl;
- cadw cofnod o ymarferion tân;
- diweddaru ei datganiad o ddiben;
- creu polisi anifeiliaid anwes;
- cael caniatâd gan y rhieni i gael cyswllt â'i chi anwes.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd cyfnod byr o rybudd i'r gwarchodwr plant er mwyn gwirio ei bod ar gael.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 14 Rhagfyr 2018 am gyfanswm o 4 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach. Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Person Cofrestredig | Stephanie De'ath |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 10 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Oriau agor | Rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Awst 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 14 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Ni chafwyd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws Agored.